THOMAS, BENJAMIN (1723 - 1790), pregethwr gyda'r Annibynwyr a chynghorwr Methodistaidd

Enw: Benjamin Thomas
Dyddiad geni: 1723
Dyddiad marw: 1790
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr gyda'r Annibynwyr a chynghorwr Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Un o ogledd Penfro neu dde Ceredigion ydoedd. Aeth i'r Gogledd yn athro cylchynol yn 1741 ac erlidiwyd ef yno. Dechreuodd gynghori gyda'r Methodistiaid, a phenodwyd ef yn gynghorwr cyhoedd yn sasiwn Watford, 1743 - gelwir ef yn ' licensed Dissenting Minister ' yn y cofnodion, ond prin ei fod yn ordeiniedig, o'r hyn lleiaf nis enwir felly yn *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru* Bu yn y Gogledd drachefn yn 1743 ac erlidiwyd ef ym Môn. Penodwyd ef yn gynorthwywr i Howel Harris fel arolygwr dros Gymru yn sasiwn Porth-y-rhyd - 'my assistant' y geilw Harris ef yn ei ddyddiadur. Anfonwyd ef i'r Gogledd yn 1748, a chrybwyllir amdano yn 1749 fel un o brif genhadon y Methodistiaid yng Ngwynedd. Aeth i sasiwn Llanidloes, 1750, ac ochrodd gyda Daniel Rowland yn yr ymraniad. Cyfarfu Harris ag ef yn sasiwn Castellnewydd Emlyn, 1764. Ceir ' Benjamin Thomas, near Cardigan ' ymhlith tanysgrifwyr Sir Benfro i *Tair Pregeth* D. Rowland, 1772, ond yn rhestr Sir Benfro o danysgrifwyr *Pum Pregeth*, 1772, 'near Llechryd ' sydd ar gyfer ei enw. Enwir ef ymhlith y cynghorwyr yn sasiynau Llangeitho, 1778 a 1783. Y mae ei fedd ar bwys beddau Dafydd ac Ebenezer Morris ym mynwent Tredrëyr, a dywedir ar y maen iddo farw 12 Ebrill 1790, yn 77 mlwydd oed. Yr oedd yn bregethwr grymus a theimladwy.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, i, 23; xi, 48, 58; xxv, 12-13, 21, 102; xxvi, 78; xxviii, 38; xxxi, 25, 28; xxxii, 72

R. Bennett, *Methodistiaeth Trefaldwyn Uchaf, 1738–1852* (1929), 127, 171-2

Robert Owen, yn *Er Clod Saith Bennod ar Hanes Methodistiaeth yng Nghymru*, 46

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 83

Y Traethodydd, 1883, 148-9

John Pritchard, *Methodistiaeth Môn* (1888), 25

Methodistiaeth Cymru (1851–6), i, 487-8; ii, 293, 304, 337

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 234-5

John Evans, *Y trydydd byr-gofiant: yn cynwys hanes oddeutu cant o bregethwyr anordeiniedig a fu farw yn Sir Aberteifi o ddechreuad y cyfundeb hyd 1913* (Dolgellau 1913), 111-3

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732659

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Girannu